13EG O FEDI

# Ysgol Treganna

## Cyswllt Wythnosol



## Wythnos yma

Ar ddiwedd ein hwythnos lawn gyntaf nôl yn yr ysgol mae pob un o'r disgyblion a'r staff wedi ymgartrefu yn wych yn eu dosbarthiadau newydd!

Wythnos yma, mae Mrs Julia Davage wedi cychwyn y gwersi dysgu awyr agored ac mae'r disgyblion wedi bod wrth eu bodd yn cydweithio ac yn dysgu sgiliau newydd. Bwriad y gwersi yma yw datblygu sgiliau annibynnol, mentergarwch a dyfalbarhad y disgyblion a bydd pob dosbarth yn cael cyfle i fynychu'r sesiynau yma.

Wythnos yma hefyd cychwynnodd Clwb Brecwast y Feithrin. Bob bore mae drysau'r dosbarth Meithrin yn agor am 8.10 ac rydym yn croesawu ein disgyblion Meithrin ac yn darparu brecwast a gweithgareddau i bawb. Ym mis Tachwedd byddwn yn cychwyn Clwb Cymer Ofal yn y dosbarth Meithrin ar ôl ysgol tan 6.00 bob dydd. Am wybodaeth pellach sut i gofrestru, cysylltwch gyda'r dderbynfa.

Datblygiad cyffrous arall yn yr ysgol yw sefydlu ein Hwb Cymunedol sef "Y Nyth". Rydym wedi trawsnewid un o ystafelloedd yr ysgol mewn i hwb cymunedol ble fyddwn yn cynnal gweithdai i rieni, sesiynau ymgysylltu gyda rhieni a chyfarfodydd ein Fforwm Rieni a Chwlwm Rhieni (bydd mwy o wybodaeth i ddilyn!)

Fel rhan o'n rôl fel Ysgol Arweiniol byddwn hefyd yn croesawu myfyrwyr Met Caerdydd i'r ysgol yn bythefnosol y flwyddyn yma a bydd y sesiynau yma yn cael eu cynnal yn "Y Nyth". Mrs Jess Ausi sydd yn arwain yr hyfforddiannnau a bydd y myfyrwyr yn cael cyfle i gydweithio gyda staff yr ysgol ac i arsylwi mewn dosbarthiadau. Edrychwn ymlaen at eu croesawu i'r ysgol.

**Pwysig**

Os oes gan eich plentyn asthma neu alergedd, ac yn defnyddio pwmp neu feddyginiaethau yn yr ysgol, a fyddech mor garedig â gwneud yn siŵr eu bod o fewn y dyddiad 'defnyddio erbyn', ac yn eu disodli yn ôl yr angen.

## Calendr

**Sesiynau Cwrdd â'r Athro 4.15-4.45**

**16/09/24**
**Derbyn**

**17/09/24**
**Bl2,Bl4**

**18/09/24**
**Bl3,Bl5 a Bl6**

**19/09/24**
**Bl1**

## Cyfarfod Rhieni yn neuadd yr ysgol

Ar ddydd Mercher yr ail o Hydref bydd cyfarfod a choffi yn neuadd yr ysgol i rieni a gwarcheidwaid. Yn y cyfarfod byddwn yn sôn am flaenoriaethau'r flwyddyn, yn son am weithdrefnau pwysig yr ysgol ac yn amlinellu ein prosesau diogelu.

Bydd cwmni Group Ed hefyd yn bresennol ac yn cynnal hyfforddiant byr i rieni ar sut i ddefnyddio'r platfform newydd.

Bydd y cyfarfodydd am 9.30yb a 5.30yh.

## Cwrdd â'r athro

Cofiwch am y sesiynau "Cwrdd â'r Athro" sydd wedi eu trefnu ar gyfer wythnos nesaf. Bwriad y sesiynau yma yw rhoi cyfle i rieni/ gwarcheidwaid i gyfarfod athrawon y dosbarth, i holi cwestiynau ac i dderbyn gwybodaeth am drefniadau'r dosbarth. Oherwydd diffyg lle a goruchwyliaeth gofynnwn yn garedig i rieni yn unig fynychu'r sesiynau yma.

## Byrbryd Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2

Rydym yn annog disgyblion Meithrin i flwyddyn 2 i flasu byrbrydau. Maent yn aml yn gysylltiedig gyda gwersi a themâu'r dosbarth. Bydd tal o £1 yr wythnos am y tymor yn ymddangos ar eich cyfrif Parent Pay. Mae plant y dosbarthiadau yma yn derbyn llaeth am ddim bob dydd. Mae croeso i chi anfon byrbrydau iach gyda'ch plentyn. Dydyn ni ddim yn caniatáu creision, cnau, diodydd pefriog na losin ayyb.

## Bws Beic Ysgol Treganna

Bydd Bws Beic nesaf Ysgol Treganna ar ddydd Gwener,Medi'r 20fed a byddwn yn cyfarfod ym Mharc Thompson am 8.15yb.
Mae yna dîm o hwyluswyr (gwirfoddolwyr o rieni ac o'r ysgol) yn cadw pawb yn ddiogel ac ar wahân i'r traffig ac rydym bob amser yn falch cael gwirfoddolwyr newydd ar gyfer hwyluso'r Bws Beic! Am fwy o wybodaeth ymunwch gyda grŵp whatsapp Bws Beicio Ysgol Treganna.

## Caniatâd lluniau

Rydym yn bwriadu defnyddio platfform Instagram fel ffordd i gyfathrebu gyda rhieni. Byddwn yn uwchlwytho trawstoriad o weithgareddau/ digwyddiadau'r ysgol yn wythnosol. Ar hyn o bryd byddwn yn parhau i ddefnyddioTrydar/X ond byddwn yn gwneud penderfyniad dros y misoedd nesaf os fyddwn yn parhau i ddefnyddio Trydar/X. A fyddech cystal â rhoi caniatâd i'ch plentyn fod ar y gwefannau cymdeithasol wrth gwblhau'r ffurflen yma. Diolch.

https://forms.office.com/e/me1KV5DQyQ

## Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**
"Mae gen i…Does gen i ddim"
**Her**
"Yn ffodus, mae gen i.."
"Yn anffodus, does gen i ddim"

**Testun trafod yr wythnos**
Beth petai dim ceir?

**Cân yr wythnos**
Gwilym - Catalunya

**Idiom yr wythnos**
Yn wên o glust i glust